# Trefn Gwasanaeth

Wythnos Cymorth Cristnogol
10–16 Mai 2026

# Order of Service

Christian Aid Week
10–16 May 2026

## Gweithredu'n ffyddlon

## Faithful action



Fridah Moraa, ffermwraig trefol, gyda Quillan ei hŵyr pedair oed yn Dagoretti, Nairobi.

Urban farmer, Fridah Moraa, with her four-year-old grandson Quillan in Dagoretti, Nairobi.

cymorth cristnogol
christian aid

# Diolch am ymuno â ni i addoli a gweddïo yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol.

Thema ein gwasanaeth yw 'gweithredu'n ffyddlon'. Drwy ysgrythur, gweddi a chân, byddwn yn archwilio ffyddlondeb Duw ac yn canfod sut gallwn ni briodoli'r ffyddlondeb hwnnw yn ein bywydau ni.

Mae'r oedfa hwn wedi'i lunio gan brofiadau Fridah Moraa a Belinda Kasudi, ffermwyr trefol sy'n byw yng nghymuned anffurfiol gwasgaredig* Dagoretti yn Nairobi, Kenya. Mae bywyd yma'n ansicr, dim digon o dai, dim mynediad dibynadwy at ddŵr tap a dim ond ychydig o gyfleoedd i ennill incwm. Mae newyn yn fygythiad cyson, wrth i deuluoedd wynebu penderfyniadau torcalonnus ynghylch sut i fwydo eu plant.

Yn yr amgylchedd gorlawn hwn, gallai ffermio ymddangos yn amhosibl, ond mae Fridah a Belinda wedi ymgymryd â'r her gyda chefnogaeth Beacon of Hope, partner Cymorth Cristnogol.

Mae Fridah a Belinda yn cael eu cymell gan y cariad sydd ganddyn nhw at eu teuluoedd a'r awydd i ddarparu ar gyfer eu plant a'u hwyrion a'u hwyresau. Maen nhw'n siarad â ni am y nerth maen nhw'n ei gael o gredu bod Duw yn ffyddlon ac yn gofalu amdanyn nhw. Maen nhw'n gweld Duw yng ngweithredoedd y bobl o'u cwmpas, gan gynnwys yn yr hyfforddiant a ddarperir gan Beacon of Hope.

**Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, mae gennym saith diwrnod i wneud gwahaniaeth. Wrth i'ch cymuned ymuno â ni i addoli, mae'n arwydd o'ch ymrwymiad i weithredu'n ffyddlon. Diolch.**

***Beth yw cymunedau anffurfiol?**
Ardaloedd tai lle gall yr amodau fod yn heriol iawn yw cymunedau anffurfiol. Yn gyffredinol, mae gan breswylwyr fynediad cyfyngedig at seilwaith a gwasanaethau sylfaenol, fel dŵr tap a thrydan.



Belinda yn cerdded ei merch Abigail adref o'r ysgol.

## Clywed gan Fridah a Belinda

Yn ein ffilm Wythnos Cymorth Cristnogol, byddwch yn clywed gan Fridah a Belinda am y ffordd mae technegau ffermio trefol wedi trawsnewid eu bywydau a bywydau eu cymunedau. Llwythwch y ffilm i lawr o **caid.org.uk** ymlaen llaw neu ei ffrydio'n fyw drwy ein gwefan neu ein sianel YouTube.

Neu, fe welwch ddarlleniadau byr am brofiadau Fridah a Belinda i'w rhannu'n uchel yn eich gwasanaeth.

Gallwch hefyd ddefnyddio ein **sleidiau PowerPoint** i ddangos lluniau o'n gwaith yn Dagoretti.

# Popeth sydd ei angen arnoch ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol

Yn ogystal â'r Trefn Gwasanaeth hwn, mae rhagor o adnoddau ar gael yn **caweek.org/Resources** a **caweek.org/Worship**. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Nodiadau pregeth i siaradwyr a phregethwyr.
- Sleidiau PowerPoint.
- Adnoddau addoli i bob oed.
- Taflen weithgareddau i blant.
- Ein ffilm Wythnos Cymorth Cristnogol.


Belinda walking her daughter Abigail home from school.

# Thank you for joining us in worship and prayer this Christian Aid Week.

The theme of our service is 'faithful action'. Through scripture, prayer and song, we'll explore God's faithfulness and discern how we can reflect that faithfulness in our lives.

This service is shaped by the experiences of Fridah Moraa and Belinda Kasudi, urban farmers living in the sprawling informal settlement* of Dagoretti in Nairobi, Kenya. Life here is precarious, with inadequate housing, no reliable access to running water and few opportunities to earn an income. Hunger is a constant threat, as families face heartbreaking decisions over how to feed their children.

In this densely packed environment, farming might seem impossible, but Fridah and Belinda have taken on the challenge with the support of Christian Aid's partner Beacon of Hope. Fridah and Belinda are driven by their love for their families and their desire to provide for their children and grandchildren. They speak to us about the strength they gain from their conviction that God is faithful and cares for them. They see God at work in the actions of those around them, including in the training provided by Beacon of Hope.

**This Christian Aid Week we have seven days to make a difference. Your community joining in worship with us is a sign of your commitment to faithful action. Thank you.**

***What are informal settlements?**
Informal settlements are housing areas where conditions can be extremely challenging. Residents generally have limited access to infrastructure and basic services, such as running water and electricity.

## Hear from Fridah and Belinda

In our Christian Aid Week film, you'll hear from Fridah and Belinda about how urban farming techniques have transformed their lives and the lives of their communities. Download the film from **caid.org.uk** in advance or stream live via our website or YouTube channel.

Alternatively, you'll find short readings about Fridah and Belinda's experiences, to share aloud in your service.

You can also use our **PowerPoint slides** to show images of our work in Dagoretti.

# All you need for Christian Aid Week

In addition to this Order of Service, you'll find more resources at **caweek.org/Resources** and **caweek.org/Worship** These include:

- Sermon notes for speakers and preachers.
- PowerPoint slides.
- All-age worship resources.
- A children's activity sheet.
- Our Christian Aid Week film.

# Trefn Gwasanaeth

## Cyflwyniad

*Croesawch eich cymuned yn eich geiriau eich hun.*

Thema’r gwasanaeth heddiw yw ‘gweithredu’n ffyddlon’. Mae'r Ysgrythur yn dweud wrthym ni: ‘Mae'r Duw sy'n eich galw chi yn ffyddlon' (1 Thesaloniaid 5:24). Mae cariad a gofal diderfyn Duw yn cael ei gynnig i ni drwy’r amser. Gelwir arnom i adlewyrchu natur ffyddlon a thosturiol Duw yn ein geiriau a'n gweithredoedd ein hunain.

Byddwn yn clywed gan ddwy fenyw ddewr: Fridah Moraa a Belinda Kasudi. Mae Fridah a Belinda yn ffermwyr trefol yng nghymuned anffurfiol Dagoretti yn Nairobi, Kenya. Mae bywyd yma'n ansicr. Mae mynediad at hanfodion fel dŵr tap a glanweithdra yn gyfyngedig. Mae rhieni'n deffro bob dydd yn gwybod os na fyddan nhw'n ennill digon, fydd eu plant ddim yn bwyta'r noson honno.

Ond mae mamau fel Fridah a Belinda yn benderfynol o newid eu bywydau nhw a bywydau eu plant. Maen nhw wedi manteisio ar y cyfle i dyfu llysiau yn y mannau lleiaf a mwyaf annisgwyl, gan ddarparu maeth, incwm a chyfle i'w teuluoedd.

Fel y dywed Fridah wrthym: **'Mae'n anodd, ond yn Nuw rydw i'n ymddiried – i gael y nerth i ddal ati bob dydd.'**



## Emyn neu gân

*Gweler ein hawgrymiadau ar ddiwedd y ddogfen hon.*

## Galwad i addoli

Creawdwr y cyfan,
rwyt ti'n ffyddlon i'r byd rwyt ti wedi'i greu.
**Addolaf di Arglwydd, â'm holl galon.**
Rhoddwr bywyd yn ei holl gyflawnder, rwyt ti’n dyheu am ein gweld yn ffynnu.
**Addolaf di Arglwydd, â'm holl galon.**
Bugail Da y defaid, rwyt ti'n ein hadnabod ni ac yn ein caru ni.
**Addolaf di Arglwydd, â'm holl galon.**
Arglwydd, wrth i ni ymgynnull mewn gweddi a mawl,
gofynnwn i ti adnewyddu ein ffydd,
a'n ffurfio ni'n un corff,
yn barod i'th wasanaethu.
**Amen.**

### Stori Fridah

Mae Fridah Moraa yn byw yng nghymuned anffurfiol Dagoretti yn Nairobi, Kenya. Mae hi'n rhentu caban metel i gartrefu ei phlant a'i hŵyr. Does ganddyn nhw ddim dŵr tap yn eu cartref ac maen nhw’n rhannu toiled sylfaenol gyda llawer o deuluoedd eraill. Yn ddiweddar, collodd Fridah ei gŵr mewn damwain drasig ac mae’n ei golli’n fawr. **'Mae wedi gadael bwlch mawr,'** meddai.

Gall bywyd o ddydd i ddydd Fridah fod yn ansicr. Mae hi'n deffro bob bore yn poeni am fwydo ei theulu. **'Ond alla i ddim rhoi'r ffidil yn y to,'** meddai Fridah, **'mae angen i fy mhlant fynd i'r ysgol. Mae angen iddyn nhw fwyta.’**

Mae Fridah wedi bod yn ceisio datblygu incwm sefydlog drwy werthu llysiau, gan wneud taith ddwy awr i brynu cynnyrch cyfanwerthu chwe diwrnod yr wythnos. Rai dyddiau, nid yw’n gwerthu digon o'r cynnyrch cyfanwerthu ar ei stondin yn y farchnad. Ar y diwrnodau hyn, mae hi'n mynd heb fwyd, er mwyn i'r plant allu bwyta.

# Order of Service

## Introduction

*Welcome your community in your own words.*

The theme of today's service is 'faithful action'. Scripture tells us: 'The one who calls you is faithful' (1 Thessalonians 5:24). God's boundless love and care for us is offered to us at every moment. We are called to reflect the faithful and compassionate nature of God in our own words and actions.

We will hear from two courageous women: Fridah Moraa and Belinda Kasudi. Fridah and Belinda are urban farmers in the informal settlement of Dagoretti in Nairobi, Kenya. Life here is precarious. Access to necessities such as running water and sanitation is limited. Parents wake up each day knowing that if they don't earn enough, their children won't eat that evening.

But mothers like Fridah and Belinda are determined to change their lives and those of their children. They have seized the opportunity to grow vegetables in the smallest and most unlikely spaces, providing nutrition, income and opportunity for their families. As Fridah tells us: **'It's hard, but in God I trust – for the strength to keep going every day.'**

## Hymn or song

*See our suggestions at the end of this document.*

## Call to worship

Creator of all,
you are faithful to the world you have made.
**I will praise you Lord, with all my heart.**
Giver of abundant life, you long for our flourishing.
**I will praise you Lord, with all my heart.**
Good Shepherd of the sheep, you know us and love us.
**I will praise you Lord, with all my heart.**
Lord, as we gather in prayer and praise,
we ask that you renew our faith,
and form us into one body,
ready to serve you.
**Amen.**

### Fridah's story

Fridah Moraa lives in the informal settlement of Dagoretti in Nairobi, Kenya. She rents a corrugated metal shelter to house her children and grandson. They do not have running water inside their home and share a basic toilet with several other families. Fridah recently lost her husband in a tragic accident and feels his loss acutely. **'He's left a big gap,'** she says.

Day-to-day life for Fridah can be precarious. She wakes every morning worrying about how to feed her family. **'But I can't give up,'** Fridah says, **'my children need to go to school. They need to eat.'**

Fridah has been trying to develop a stable income by selling vegetables, making a two-hour round trip to buy wholesale produce six days a week. Some days she doesn't sell enough of the wholesale produce at her market stall. On these days she goes without food, so the children can eat.

## Gweddi agoriadol

Dduw ffyddlon,
rydym yn dod o dy flaen gyda'n
doniau a'n cryfderau,
a gyda'n diffygion a'n gwendidau,
gan wybod dy gariad di-ball atom ni.
Agor ein calonnau a'n meddyliau,
fel ein bod yn clywed dy eiriau ac yn
gweithredu arnynt.
Dyro i ni ddewrder a dyfalbarhad.
Gwna ni'n debyg i ti,
a'n hysbrydoli i adeiladu dy deyrnas cyfiawnder
a chariad ar y ddaear.
**Amen.**

## Gweddi gyffes

Dduw trugaredd a gras,
mae dy gariad cadarn yn ymestyn i'r nefoedd,
dy ffyddlondeb i'r cymylau.
Eto, rydym yn dal i droi oddi wrthot ti.
Rydym yn ildio i heriau.
Rydym yn gadael i raniadau ddyfnhau.
Rydym yn dweud wrthym ni ein hunain dy
fod wedi ein gadael.
Pan fyddwn yn colli ffydd, Dduw cariadus,
yn dy drugaredd:
**Maddau i ni a helpa ni.**
Iesu, rwyt ti'n galw arnom ni i garu ein gilydd
a rhannu ein doniau da gyda'n cymdogion.
Ond yn rhy aml rydym yn dweud: 'Ai fi yw ceidwad
fy mrawd?'
Rydym yn dal yn dynn ar yr hyn sy'n eiddo i ni.
Nid ydym yn gwrando ar waedd am gyfiawnder.
Rydym yn dweud wrth ein hunain nad oes dim y gallwn
ni ei wneud.
Pan fyddwn yn methu â throi ein ffydd yn
weithredoedd, Dduw cariadus,
yn dy drugaredd:
**Maddau i ni a helpa ni.**
Ysbryd Glân, dy ffrwyth yw ffyddlondeb,
cariad, llawenydd a heddwch.
Yn rhy aml rydym yn ofni'r twf a'r newid
a ddaw law yn llaw â chael ein harwain gennyt ti.
Byddai'n well gennym ddilyn ein trywydd ein hunain.
Rydym yn gwneud y pethau anghywir
ac yn anghofio gwneud y pethau da.
Pan fyddwn yn methu fel dilynwyr ffyddlon,
Dduw cariadus,
yn dy drugaredd:
**Maddau i ni a helpa ni.**

## Stori Fridah (parhad)

Yn ddiweddar, mae Fridah wedi manteisio ar gyfle gan brosiect o'r enw 'Imarisha Kilimo' – sy'n golygu 'Cryfhau Amaethyddiaeth' mewn Swahili. Mae'r prosiect hwn, sy'n cael ei redeg gan Beacon of Hope, sef partner Cymorth Cristnogol, yn hyfforddi menywod fel Fridah mewn ffermio trefol.

Mae teuluoedd yn dysgu tyfu llysiau mewn mannau bach, gan ddefnyddio gerddi siâp côn, dull plannu fertigol. Maen nhw'n dysgu casglu dŵr glaw, yn gwneud compost organig, ac yn defnyddio dadhydradwyr er mwyn cadw bwyd yn hirach.

Erbyn hyn, ym mhen pellaf y llwybr concrit, mae Fridah yn trin ei fferm drefol ffrwythlon, sy'n llawn cêl, tomatos a llysiau eraill. Mae ei phlant a'i hŵyr yn bwyta llysiau ffres, ac mae hi'n gwerthu ei chynnyrch yn y farchnad.

I Fridah, mae hyn wedi bod yn drawsnewidiol. **'Rydw i nawr yn gallu cynllunio... Rydw i'n gallu helpu fy nheulu. Mae ffermio trefol wedi newid fy mywyd.'**

## Opening prayer

Faithful God,
we come before you
with our gifts and strengths,
and with our faults and weaknesses,
knowing your unfailing love for us.
Open our hearts and our minds,
that we may hear your word and act on it.
Foster in us boldness and perseverance.
Transform us into your likeness,
and inspire us to build your kingdom of justice
and love on earth.
**Amen.**

## Prayer of confession

God of mercy and grace,
your steadfast love extends to the heavens,
your faithfulness to the clouds.
Yet still we turn away from you.
We give up in the face of challenges.
We allow division to deepen.
We tell ourselves that you have deserted us.
When we lose faith, loving God,
in your mercy:
**Forgive us and help us.**

Jesus, you call us to love one another
and share our good gifts with our neighbours.
But too often we say: 'Am I my brother's keeper?'
We hold tight to what is ours.
We do not listen to cries for justice.
We tell ourselves that there is nothing we can do.
When we fail to turn our faith into action, loving God,
in your mercy:
**Forgive us and help us.**

Holy Spirit, your fruit is faithfulness,
love, joy and peace.
Too often we fear the growth and change
that comes with being guided by you.
We would rather pursue our own way.
We do what is wrong
and we neglect to do what is good.
When we fall short as faithful followers, loving God,
in your mercy:
**Forgive us and help us.**

## Fridah's story (continued)

Recently Fridah has seized the opportunity offered by a project called 'Imarisha Kilimo' – Swahili for 'Strengthen Agriculture'. Run by Christian Aid's partner Beacon of Hope, this project trains women like Fridah in urban farming.

Families learn how to grow vegetables in small spaces, using cone gardens, a form of vertical planting. They learn to conserve rainwater, make organic compost, and use dehydrators to preserve food.

Now, tucked at the end of a concrete alley, Fridah tends her lush urban farm, full of kale, tomatoes and other vegetables. Her children and grandson eat fresh vegetables, and she sells her produce at market.

For Fridah, this has been transformative. '**Now I can plan... I can help my family. Urban farming has changed my life**.'

# Gweddi ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol 2026

*(I'w ddefnyddio fel Colect os yw hyn yn rhan o'ch traddodiad.)*

Dduw Grasol,
pan fyddwn yn sefyll ar wastadeddau ansicrwydd,
heb lwybr o'n blaenau,
byddwn yn edrych atat ti.

Rydym yn cofio beth rwyt ti wedi'i wneud o'r blaen
ac mae'n cysuro ein calonnau pryderus.
Gan ddangos trugaredd, fe wnaethost ti ein gwared ni bryd hynny;
gyda chariad a ffyddlondeb, y gwnei hynny eto.

Dyro nerth i ni gamu ymlaen mewn gobaith.
Dyro ffydd i ni sy'n ein newid ni,
gobaith sy'n ein bwydo ni,
cariad sy'n ein symud ni.
Yn enw Iesu,
**Amen.**

Gan Bob Kikuyu, Cynghorydd Diwinyddiaeth Fyd-eang Cymorth Cristnogol, Nairobi.



**Fridah yn gofalu am ei fferm drefol yn Dagoretti.**

# Darlleniad cyntaf

**Ar gyfer gwasanaethau ddydd Sul 10 Mai neu ar adegau eraill:**
**Actau 17:22-31**
'Dŷn ni'n byw, yn symud ac yn bod ynddo fe.'


**Ar gyfer gwasanaethau ddydd Sul 17 Mai neu ar adegau eraill:**
**Actau 1:6-14**
'Ond bydd yr Ysbryd Glân ... yn rhoi nerth i chi ddweud amdana i wrth bawb.'

**Ar gyfer gwasanaethau unrhyw bryd:**
**Eseia 61:1-4 ac 8** 'Mae wedi fy anfon i gyhoeddi newyddion da i'r tlodion,' neu **Salm 23:1-6**
'Yr ARGLWYDD ydy fy mugail i; mae gen i bopeth dw i angen.' (Wedi'i ddewis gan Belinda Kasudi)



# Emyn neu gân

*Gweler ein hawgrymiadau ar ddiwedd y ddogfen hon*



# Gwyliwch ein ffilm Wythnos Cymorth Cristnogol yn caweek.org/Resources

# A prayer for Christian Aid Week 2026

*(To be used as a Collect if this is part of your tradition)*

Gracious God,
when we stand on the plains of uncertainty,
with no path before us,
we look to you.

We remember what you have done before
and our anxious hearts are comforted.
Showing mercy, you delivered us then;
in your love and faithfulness, you will do it again.

Give us the strength to step forward in hope.
Give us faith that changes us,
hope that feeds us,
love that moves us.
In Jesus' name,
**Amen.**

By Bob Kikuyu,
Christian Aid's Global Theology Advisor, Nairobi.



**Fridah tending her urban farm in Dagoretti.**

# First reading

**For services on Sunday 10 May or at other times:**
**Acts 17:22-31**
'In him we live and move and have our being.'

**For services on Sunday 17 May or at other times:**
**Acts 1:6-14**
'You will be my witnesses.'

**For services at any time:**
**Isaiah 61:1-4 and 8**
'He has sent me to bring good news to the oppressed.'
or **Psalm 23:1-6**
'The Lord is my shepherd; I shall not want.' (Chosen by Belinda Kasudi)

# Hymn or song

*See our suggestions at the end of this document*

## Watch our Christian Aid Week film at caweek.org/Resources

## Stori Belinda

Mae Belinda Kasudi yn byw gyda'i gŵr David a'u pump o blant mewn cartref pren un ystafell wely yn Dagoretti, Nairobi. Mae David yn gweithio i gwmni adeiladu, ond mae ei shifftiau'n afreolaidd. Ambell ddiwrnod does dim gwaith – na thâl. Mae Belinda yn gwneud unrhyw swydd mae hi'n gallu dod o hyd iddi, fel golchi dillad ei chymdogion.

Mae incwm sefydlog yn hanfodol i deulu Belinda. Dywed wrthym: **'Mae'n rhaid talu am bopeth yma. Rydyn ni hyd yn oed yn prynu dŵr... Mae'n anodd iawn darparu digon o fwyd i'r plant gan ei bod mor anodd dod o hyd i waith.'**

Mae Belinda wrth ei bodd yn dysgu ac yn edrych ymlaen at fod yn rhan o brosiect Imarisha Kilimo. Mae hi wedi gallu creu ei gardd siâp côn ei hun sy'n arbed dŵr, gan dyfu sbigoglys, betys ac arbenigeddau lleol fel managu.



**Belinda a David yn eu gardd siâp côn gyda'u plant Wilson, Blessing ac Abigail.**

Mae Belinda wrth ei bodd yn gallu bwydo cynhwysion ffres i'w phlant, a gwerthu unrhyw lysiau ychwanegol i helpu gyda chostau fel nwyddau ysgol.

# Ail ddarlleniad

**Ar gyfer gwasanaethau ddydd Sul 10 Mai neu ar adegau eraill:**
**Ioan 14:15-21**
'Os dych chi'n fy ngharu i, byddwch yn gwneud beth dw i'n ddweud.'

**Ar gyfer gwasanaethau ddydd Sul 17 Mai neu ar adegau eraill:**
**Ioan 17:1-11**
'... er mwyn iddyn nhw ddod yn un fel dŷn ni'n un.'

**Ar gyfer gwasanaethau unrhyw bryd: Luc 13:18-20**
'Sut beth ydy teyrnasiad Duw? ... Mae fel hedyn mwstard.'
**Mathew 7:7-11**
'Daliwch ati i ofyn a byddwch yn ei gael '
(dewisir gan Fridah Moraa)

# Pregeth neu sgwrs

## Belinda's story

Belinda Kasudi lives with her husband David and their five children in a wooden one-bedroom home in Dagoretti, Nairobi. David works for a building company, but his shifts are irregular. Some days there is no work – and no pay. Belinda picks up whatever jobs she can find, such as taking in laundry for neighbours.

A stable income is vital for Belinda's family. As she tells us: **'Everything here has to be paid for. We even buy water… Providing enough food for the children is very difficult, because it's so tough to find a job.'**

Belinda loves learning and is excited to be part of the Imarisha Kilimo project. She has been able to create her own water-saving cone garden, growing spinach, beetroot and local specialities such as *managu*.



**Belinda and David in their urban farm with children Wilson, Blessing and Abigail.**

Belinda delights in being able to feed her children fresh ingredients, and in selling any extra vegetables to help with costs like school supplies.

# Second reading

**For services on Sunday 10 May or at other times:**
**John 14:15-21**
'If you love me, you will keep my commandments.'

**For services on Sunday 17 May or at other times:**
**John 17:1-11**
'So that they may be one, as we are one.'

**For services at any time:**
**Luke 13:18-20**
'What is the kingdom of God like? … It is like a mustard seed.'
**Matthew 7:7-11**
'Ask, and it will be given to you.' (Chosen by Fridah Moraa)

# Sermon or talk

# Gweddïau eiriol

*Mae tri opsiwn ar gyfer gweddïau eiriol: set ysgrifenedig o weddïau; awgrymiadau gweddïo i'ch ysbrydoli; ac awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau gweddi creadigol.*

## Opsiwn 1

Gadewch i ni weddïo gyda'n gilydd.
Arglwydd, rwyt ti'n ffyddlon ac yn deg.
Yn dy drugaredd,
**clyw ein gweddi.**

Arglwydd, clyw ein gweddi dros ein cymdogion byd-eang yn Kenya.
Gweddïwn yn arbennig dros drigolion Dagoretti.
Rydym yn codi o dy flaen bawb sy'n cael eu gorfodi i fyw mewn tai annigonol,
heb fynediad dibynadwy at ddŵr tap, glanweithdra na thrydan.
Gweddïwn dros y rhai sy'n byw gydag ansicrwydd a'r bygythiad o newyn bob dydd.
Helpa ni i glywed lleisiau ein cymdogion yn glir pan fyddan nhw'n rhannu eu profiadau.
Ysbrydola ni i weithredu, wrth i ni ymateb i dy orchymyn i garu ein gilydd.
Arglwydd, rwyt ti'n ffyddlon ac yn deg.
Yn dy drugaredd,
**clyw ein gweddi.**

Arglwydd, clyw ein gweddi dros y rhai mewn grym: llywodraethau, arweinwyr, lluniwyr polisïau,
a'r rheini sy'n siarad â lleisiau uchel ar y llwyfan cyhoeddus.
Boed i'r rhai sydd â phŵer a dylanwad garu trugaredd, gweithredu'n gyfiawn a rhodio'n ostyngedig.
Gweddïwn dros lywodraethau i weithredu i roi terfyn ar anghydraddoldeb economaidd.
Gweddïwn yn arbennig dros wledydd fel Kenya, sydd â baich dyled anghyfiawn.
Dyro lais proffwydol i ni sy'n dweud y gwir wrth bobl bwerus.
Arglwydd, rwyt ti'n ffyddlon ac yn deg.
Yn dy drugaredd,
**clyw ein gweddi.**

Arglwydd, clyw ein gweddi dros roi terfyn ar wrthdaro.
Cryfha'r rheini sy'n gweithio dros heddwch a chyfiawnder ledled y byd.
Gweddïwn yn arbennig dros...

*[Gweddïwch yma dros lefydd a phobl y mae rhyfel a thrais yn effeithio arnynt. Gallech weddïo dros:*
- *heddwch yn y Dwyrain Canol*
- *diwedd ar y rhyfel yn Wcráin*
- *y rhai mae gwrthdaro yn Swdan yn effeithio arnyn nhw*
- *Partneriaid Cymorth Cristnogol sy'n gweithio i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd yn Kenya.*

Dangos i ni sut i geisio heddwch yn ein bywydau.
Arglwydd, rwyt ti'n ffyddlon ac yn deg.
Yn dy drugaredd,
**clyw ein gweddi.**

Arglwydd, clyw ein gweddi dros bawb rydym yn eu hadnabod sy'n sâl neu'n dioddef.
*[Gan gofio'n arbennig am...]*

Gweddïwn dros bawb sy'n galaru.
*[Gan gofio'n arbennig am...]*

# Prayers of intercession

*There are three options for prayers of intercession: a written set of prayers; prayer prompts to inspire you; and suggestions for creative prayer activities.*

## Option 1

Let us pray together.
Lord, you are faithful and just.
In your mercy,
**hear our prayer**.

Lord, hear us as we pray for our global neighbours in Kenya.
We pray especially for the residents of Dagoretti.
We hold before you all people forced to live in inadequate housing,
without reliable access to running water, sanitation or electricity.
We pray for those who live with uncertainty and the threat of hunger each day.
Help us to hear clearly the voices of our neighbours when they share their experiences.
Inspire us to action, as we respond to your command to love one another.
Lord, you are faithful and just.
In your mercy,
**hear our prayer**.

Lord, hear us as we pray for those with power: for governments, leaders, lawmakers,
and those who speak with loud voices on the public stage.
May those who have power and influence love mercy, act justly and walk humbly.
We pray for governments to take action to end economic inequality.
We pray especially for countries like Kenya, who are carrying an unjust debt burden.
Instil in us the prophetic voice that speaks truth to power.
Lord, you are faithful and just.
In your mercy,
**hear our prayer**.

Lord, hear us as we pray for an end to conflict.
Strengthen those working for peace and justice across the world.
We pray especially for...

*[Pray here for places and people affected by war, violence and injustice. You could pray for:*

- *peace in the Middle East*
- *an end to the war in Ukraine*
- *those affected by conflict in Sudan*
- *Christian Aid's partners working to address gender-based violence in Kenya.*

Show us how to seek peace and pursue it in our lives.
Lord, you are faithful and just.
In your mercy,
**hear our prayer**.

Lord, hear us as we pray for all those known to us who are sick or suffering.
*[Remembering particularly...]*

We pray for all those who are grieving.
*[Remembering particularly...]*

Gweddïwn dros bobl sy'n byw mewn tlodi
sydd wedi colli anwyliaid.
Gweddïwn dros y rhai sy'n wynebu heriau na ellir eu dychmygu ar ben eu galar.
Bendithia'r rhai sy'n galaru a rho dy gysur iddyn nhw.
Llenwa ni â thosturi dros bawb y mae angen cymorth arnynt.
Arglwydd, rwyt ti'n ffyddlon ac yn deg.
Yn dy drugaredd,
**clyw ein gweddi.**

Arglwydd, clyw ein gweddi i ddiolch am bobl sy'n creu newid.
Rydym yn ddiolchgar am ffermwyr trefol dewr a mentrus fel Fridah a Belinda,
sy'n dangos i ni beth sy'n bosib.
Gweddïwn dros Beacon of Hope, partner Cymorth Cristnogol yn Nairobi.
Gofynnwn i ti gynnal ac arwain ffermwyr trefol wrth iddyn nhw dyfu bwyd, amddiffyn eu plant rhag newyn, a meithrin gobaith.
Diolchwn i bawb sy'n rhoi, yn gweithredu ac yn gweddïo yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni.
Boed i ni weld dy ddelw yn y gweithredoedd hyn o haelioni a chariad,
a boed i ni ddod o hyd i ffyrdd newydd o fyw ein ffydd drwy wasanaethu eraill.
Arglwydd, rwyt ti'n ffyddlon ac yn deg.
Yn dy drugaredd,
**clyw ein gweddi.**

Mawr yw dy ffyddlondeb, Arglwydd.
Rwyt ti wedi addo gwrando pan fydd wn yn galw arnat ti.
Derbyn y gweddïau hyn, yn enw Iesu.
**Amen.**

## Opsiwn 2

Mewn ymateb i'r awgrymiadau hyn, cynigiwch eich gweddïau eich hun ar gyfer:

- Cymunedau yn Kenya sy'n byw mewn cymunedau anffurfiol ac yn gwthio'n ôl yn erbyn tlodi eithafol.
- Ffermwyr trefol sy'n defnyddio eu sgiliau a'u hagwedd benderfynol i dyfu cnydau mewn llefydd annisgwyl.
- Beacon of Hope, Partner Cymorth Cristnogol yn Nairobi, a'r Imarisha Kilimo Prosiect ('Cryfhau Amaethyddiaeth') sy'n trawsnewid rhagolygon ffermwyr trefol.
- Rhieni sy'n poeni heddiw am beth fydd eu plant yn ei fwyta yfory. Teuluoedd sy'n wynebu ansicrwydd bwyd a diffyg maeth.
- Cymunedau sy'n byw mewn tai gorlawn neu annigonol. Pawb nad oes ganddyn nhw gartref parhaol.
- Cymunedau sydd heb fynediad dibynadwy at ddŵr glân a glanweithdra.
- Gweithredu ar yr argyfwng dyledion, sy'n cael ei yrru gan fenthycwyr preifat diegwyddor, sy'n effeithio'n anghyfiawn ar wledydd fel Kenya.
- Llywodraethau a'r rhai sydd mewn grym. Gweddïo eu bod yn gweithio dros gyfiawnder ac yn blaenoriaethu trechu tlodi.
- Gwaith Cymorth Cristnogol. Gweddïo dros bawb sy'n cefnogi'r gwaith hwn drwy roi, gweithredu a gweddïo gyda'n gilydd.

We pray for people living in poverty
who have lost loved ones.
We pray for those who face unimaginable challenges on top of their grief.
Bless those who mourn and give them your comfort.
Fill us with compassion for all those in need of support.
Lord, you are faithful and just.
In your mercy,
**hear our prayer**.

Lord, hear us as we pray with thanksgiving for changemakers.
We are thankful for bold and courageous urban farmers like Fridah and Belinda,
who show us what is possible.
We pray for Beacon of Hope, Christian Aid's partner in Nairobi.
We ask that you sustain and guide urban farmers as they grow food, protect their children from hunger, and nurture hope.
We thank you for all who are giving, acting and praying this Christian Aid Week.
May we see your image in these acts of generosity and love,
and may we find new ways to live out our faith through service to others.
Lord, you are faithful and just.
In your mercy,
**hear our prayer**.

Great is your faithfulness, Lord.
You have promised to hear us when we call upon you.
Receive these prayers, in Jesus' name.
**Amen**.

## Option 2

In response to these prompts, offer your own prayers for:

- Communities in Kenya who are living in informal settlements and pushing back against extreme poverty.
- Urban farmers using their skill and determination to grow crops in unlikely places.
- Christian Aid's partner in Nairobi, Beacon of Hope, and the Imarisha Kilimo ('Strengthen Agriculture') project that is transforming the prospects of urban farmers.
- Parents who are worried today about what their children will eat tomorrow. Families facing food insecurity and malnutrition.
- Communities living in overcrowded or inadequate housing. All people who do not have a permanent home.
- Communities who don't have reliable access to clean water and sanitation.
- Action on the debt crisis, driven by unscrupulous private lenders, that is unjustly impacting countries like Kenya.
- Governments and those with power. Pray that they may work for justice and prioritise tackling poverty.
- The work of Christian Aid. Pray for all who support this work by giving, acting and praying together.



## Opsiwn 3

Dyma ddwy ffordd greadigol o weddïo. Mae rhagor o syniadau ar gael yn ein hadnoddau addoli i bob oed yn **caweek.org/Worship**

### Gweddïau gerddi siâp côn

Mae potiau plannu siâp côn yn galluogi ffermwyr trefol yn Nairobi i dyfu dwsinau o blanhigion wedi'u pentyrru'n fertigol mewn mannau bach.

I greu eich gardd siâp côn eich hun ar gyfer gweddïo, defnyddiwch dri phot planhigion, tuniau cacen, neu gynwysyddion eraill o faint cynyddol. Gallwch addurno tu allan y cynwysyddion. Llenwch nhw â phridd neu dywod a'u pentyrru.

Casglwch frigau a'u rhoi yn y pridd neu'r tywod ar bob lefel. Dosbarthwch dagiau anrhegion lliwgar a gwahodd y cyfranogwyr i ysgrifennu neu dynnu llun dau beth maen nhw'n dymuno gweddïo drostyn nhw:

1. Ysgrifennwch weddi dros eich cymuned, achos sy'n agos at eich calon, neu anwylyd. Rhowch y weddi ar un o frigau'r haen waelod.
2. Ysgrifennwch weddi dros eich cymdogion byd-eang. Gallai hyn fod ar gyfer ffermwyr trefol yn Dagoretti, pawb sy'n byw mewn tlodi eithafol, neu ar gyfer sefyllfa arall ar eich meddwl. Rhowch y weddi ar un o frigau'r haen ganol.

Ar gyfer yr haen uchaf, gofynnwch i'r cyfranogwyr ysgrifennu neu dynnu llun gweithred y gallan nhw ei wneud mewn ymateb i'r sefyllfaoedd y maen nhw wedi'u henwi. Defnyddiwch stori Iesu am yr hedyn mwstard i ddangos y gall gweithredoedd bach arwain at newidiadau mawr.

Yn olaf, gweddïwch dros eich gardd siâp côn am help Duw gyda'r ymrwymiadau hyn i weithredu. Os ydych chi'n defnyddio pridd, gallwch blannu hadau fel dail salad o amgylch eich gweddïau a'ch gweithredoedd.



Cêl yn tyfu mewn gardd siâp côn yn Nairobi.

### Gweithgaredd gweddi fyfyriol ar gyfer gwasanaethau neu grwpiau bach

Beth fydd ei angen arnoch chi: carreg fawr, hadau bach mewn powlen, cannwyll.

Sefwch mewn cylch a gofyn i bawb ddal eu dwylo allan a chau eu llygaid. Gofynnwch iddyn nhw ddychmygu eu bod yn dal pwysau trwm. Y pwysau hwn yw'r pryderon maen nhw'n eu cario – pryderon amdanyn nhw eu hunain, eu hanwyliaid a'r byd.

Gyda'ch llygaid ar agor, pasiwch y garreg o gwmpas. Dychmygwch fod y pwysau hwn yn bryder ychwanegol. Meddyliwch am y pryderon sydd gan deuluoedd yn Dagoretti am hanfodion bywyd: bwyd, glanweithdra, salwch, mynediad at addysg.

Gweddïwch yn dawel dros bawb sy'n bresennol, y bydd Duw yn eu helpu gyda pha bryderon bynnag sydd ganddyn nhw. Gweddïwch hefyd dros Fridah, Belinda a theuluoedd eraill Dagoretti ac am yr holl bwysau sydd arnyn nhw.

Nawr, pasiwch y bowlen o hadau o gwmpas a gwahodd bob person i ddal un neu ddau. Teimlwch pa mor ysgafn a bach ydyn nhw. Mae'r hadau'n ymddangos yn fach iawn o'u cymharu â'r garreg. Ond er eu bod yn fach, maen nhw'n llawn bywyd. Gyda'r gefnogaeth briodol, byddan nhw'n tyfu i fod yn blanhigyn sy'n fwy na'r garreg.

Gweddïwch yn dawel neu'n uchel am y newid mae'r hadau hyn yn ei gynrychioli. Gweddïwch dros drawsnewid bywydau'r rhai sy'n bresennol a newid i'n cymdogion byd-eang, lle bynnag y bo angen.

Yn olaf, ewch ati i gynnau'r gannwyll a gwrando ar Wana Baraka, yr emyn gwerin o Kenya (ar gael ar-lein). Gellir cyfieithu'r geiriau Swahili fel: 'Haleliwia, dywedodd Iesu ei hun, gwyn eu byd y rhai sy'n gweddïo. Mae ganddyn nhw heddwch. Mae ganddyn nhw lawenydd. Mae ganddyn nhw lesiant.'

Gall y cyfranogwyr fynd â'u hadau adref i'w plannu.



# Option 3

Here are two creative ways to pray. More ideas can be found in our All-age worship resources at **caweek.org/Worship**

## Cone garden prayers

Cone garden planters enable urban farmers in Nairobi to grow dozens of plants stacked vertically in small spaces.

To create your own cone garden of prayer, use three plant pots, cake tins, or other containers of increasing sizes. You can decorate the outside of the containers. Fill with soil or sand and stack them.

Gather twigs and place these in the soil or sand at each level. Hand out coloured gift tags and invite participants to write or draw two things they wish to pray for:

1. Write a prayer for your community, a cause close to your heart, or a loved one. Attach it to a twig on the bottom layer.
2. Write a prayer for your global neighbours. This could be for urban farmers in Dagoretti, for all people living in extreme poverty, or for another situation on your mind. Attach it to a twig on the middle layer.

For the top layer, invite participants to write or draw an action they can take in response to the situations they have named. Use Jesus' story of the mustard seed to show that small actions can lead to great changes.

Finally, pray over your cone garden for God's help with these commitments to act. If you're using soil, you can plant seeds such as salad leaves around your prayers and actions.



Kale growing in a cone garden planter in Nairobi.

## A meditative prayer activity for services or small groups

What you'll need: a large stone, small seeds in a bowl, a candle.

Gather in a circle and ask everyone to hold out their hands and close their eyes. Invite them to imagine they are holding a heavy weight. This weight is the anxieties they carry – worries about themselves, their loved ones and the world.

With eyes open, now pass the stone around. Imagine this weight is an added worry. Think of the anxieties that families in Dagoretti have about the basics of life: food, sanitation, illness, access to education.

Pray silently for all present, that God will help them with whatever worries they hold. Pray too for Fridah, Belinda and other families in Dagoretti and for all they are carrying.

Now pass around the bowl of seeds and invite each person to hold one or two. Feel how light and small they are. The seeds seem like nothing compared to the stone. But despite their small size, they are full of life. With the right support they will grow into a plant larger than the stone.

Pray silently or aloud for the change these seeds represent. Pray for transformation in the lives of those present and change for our global neighbours, wherever it is needed.

Finally, light the candle and listen to the Kenyan folk hymn *Wana Baraka* (available online). The Swahili lyrics can be translated as: 'Hallelujah, Jesus himself said, blessed are those who pray. They have peace. They have joy. They have well-being.'

Participants can take their seeds home to plant.

# Gweddi'r Arglwydd

## Rhannu'r Tangnefedd

*Os ydych chi fel arfer yn rhannu'r Tangnefedd yn eich addoliad, mae'n bosibl yr hoffech chi ddefnyddio'r penillion a ganlyn:*

'Falle y bydd y mynyddoedd yn symud
a'r bryniau'n cael eu hysgwyd,
ond bydd fy nghariad i atoch chi yn aros,
a fydd fy ymrwymiad heddwch ddim yn siglo,'
–meddai'r ARGLWYDD, sy'n dy garu di. (Eseia 54:10)
Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chi bob amser.

### Gweithredu'n ffyddlon – Fridah a Belinda


Belinda yn gweddïo gyda'i chymuned yn Dagoretti.

Mae Fridah a Belinda wedi siarad â ni am eu ffydd. Mae bywyd bob dydd yn dal yn anodd i Fridah a'i theulu: **'Yn Nuw rydw i'n ymddiried,'** meddai, **'i gael y nerth i ddal ati bob dydd'.** Dywed Belinda wrthym: **'Pan fydd her yn codi, y rhan fwyaf o'r amser, byddaf yn gweddïo.'**

Mae plant Fridah yn falch o'u mam. Mae ei mab 13 oed Abiud (Ab-ee-ud) yn dweud: **'Mae fy mam yn gweithio'n galed iawn, mae hi'n amyneddgar ac yn garedig. Y neges dwi'n ei hanfon ati yw: diolch am ofalu amdanaf.'**

Yn rhywle lle mae caledi'n golygu newyn, mae Fridah a Belinda yn rhoi mwy a mwy o obaith i'w teuluoedd. Maen nhw wedi rhoi eu ffydd ar waith. Dywed Fridah mai'r gwahaniaeth mwyaf yw ei bod hi nawr yn gallu gwneud cynlluniau ar gyfer dyfodol ei theulu, yn hytrach na dim ond goroesi o ddydd i ddydd. Dywed Belinda wrthym ei bod bellach yn **'fenyw annibynnol'.**

I deuluoedd sydd dan bwysau yn Dagoretti, mae cefnogaeth barhaus yn hanfodol i ganiatáu i fwy o ffermwyr trefol gael mynediad at hyfforddiant ac adnoddau. Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, mae gennym saith diwrnod i wneud gwahaniaeth. Sut gallwn ni ddilyn Fridah a Belinda a dangos ein ffydd drwy ein gweithredoedd?

## The Lord's Prayer

## Sharing the Peace

*If you usually share the Peace in your worship, you may wish to use the following verses:*

'For the mountains may depart
and the hills be removed,
but my steadfast love shall not depart from you,
and my covenant of peace shall not be removed,'
says the Lord, who has compassion on you. (Isaiah 54:10)
The peace of the Lord be always with you.

### Faithful action – Fridah and Belinda


Belinda praying with her community in Dagoretti.

Both Fridah and Belinda have spoken to us about their faith. Daily life remains tough for Fridah and her family: **'But in God I trust,'** she says, **'for the strength to keep going every day'.** Belinda tells us: **'When there is a challenge, most of the time, I pray.'**

Fridah's children are proud of their mum. Her 13-year-old son Abiud (Ab-ee-ud) declares: **'My mum is very hardworking, patient and kind. The message that I can send to her [is]: thank you for taking care of me.'**

In a place where hardship means hunger, Fridah and Belinda are growing hope for their families. They have put their faith into action. Fridah says the biggest difference is she can now make plans for her family's future, rather than just surviving day by day. Belinda tells us she has become **'an independent woman'**.

For hard-pressed families in Dagoretti, ongoing support is vital to allow more urban farmers to access training and resources. This Christian Aid Week we have seven days to make a difference. How can we follow Fridah and Belinda and show our faith through our actions?

## Emyn neu gân gyda chasgliad

*Gweler ein hawgrymiadau ar ddiwedd y ddogfen hon.*
*Mae'n bosibl yr hoffech chi gynnwys esboniad yn eich Trefn Gwasanaeth i egluro sut gall pobl gyfrannu.*
*Er enghraifft:*

Defnyddiwch yr amlenni ar eich sedd, neu ewch i **caweek.org** i wneud eich cyfraniad. Drwy lenwi'r slip Rhodd Cymorth, rydych chi'n helpu i wneud i'ch rhodd fynd ymhellach. Ystyriwch wneud cyfraniad rheolaidd i waith Cymorth Cristnogol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr amlen ac ar-lein.

## Gweddi i ddiolch a chloi'r gwasanaeth

Dduw Hollalluog, rydym yn caru ein gilydd am dy fod ti yn gyntaf wedi ein caru ni.
Anfon ni allan i weithredu mewn cariad,
wedi'n atgyfnerthu gan y wybodaeth bod yr un sy'n ein galw ni yn ffyddlon.
Rydym yn diolch am waith hanfodol Cymorth Cristnogol
ac am bawb sy'n gweithredu dros gyfiawnder.
Boed i'n gweithredoedd a'n rhoddion blannu hadau newid sy'n tyfu ac yn ffynnu.
Arwain ni i greu byd lle gall pawb fyw bywyd llawn, heb dlodi.
**Amen.**

## Bendith

Boed i Iesu eich arwain
ar y ffordd.
Boed i Iesu siarad y gwir
drwoch chi.
Boed i Iesu, y bywyd,
eich llenwi â phwrpas.
A boed i fendith Duw fod gyda chi
heddiw ac am byth.
**Amen.**



**Fridah gydag Eliud ac Abiud, ei hefeilliaid, a Quillan ei hŵyr, y tu allan i'w cartref yn Dagoretti.**

## Hymn or song with collection

*See our suggestions at the end of this document.*
*You may wish to include an explanation in your Order of Service of how people can donate. For example:*

Use the envelopes on your seat/pew or visit **caweek.org** to make your contribution. By completing the Gift Aid slip, you're helping to make your giving go further. Please consider making a regular contribution to Christian Aid's work. More information is available on the envelope and online.

## Prayer of thanksgiving and dismissal

Almighty God, we love one another because you first loved us.
Send us out to act in loving service,
strengthened by the knowledge that the one who calls us is faithful.
We give thanks for the vital work of Christian Aid
and for all those who pour themselves out for the cause of justice.
May our actions and offerings plant seeds of change that grow and flourish.
Guide us as we seek a world where every person can live a full life, free from poverty.
**Amen**.

## Blessing

May Jesus, who is the way,
guide you.
May Jesus, who is the truth,
speak through you.
May Jesus, who is the life,
fill you with purpose.
And may God's blessing go with you
today and always.
**Amen**.



Fridah with her twins Eliud and Abiud and grandson Quillan, outside their home in Dagoretti.

# Awgrymiadau ar gyfer emynau a chaneuon Cymraeg

**Agor di ein llygaid, Arglwydd** (W. Rhys Nicholas 1914-96). Caneuon Ffydd 841 – comisiynwyd gan Jeff Williams Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru ar gyfer penblwydd Cymorth Cristnogol yn 50 yn 1995.

Tôn newydd i **'Agor di ein llygaid Arglwydd'** (Meilir Geraint). YouTube  - ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol 2021

**Ffrindiau Byd-eang** (Martyn Geraint a Cymorth Cristnogol). YouTube a platfformau gwrando eraill - Wedi'i chreu mewn partneriaeth â Cymorth Cristnogol, yn addas iawn mewn gwasanaeth i blant o bob oed.

Mawr Dy Ffyddlondeb (Thomas Chisholm (Great is your faithfulness), cyfieithiad Dafydd M. Job). Grym Mawl 2:36

Dyro Dy Gariad I'n Clymu (Dave Bilbrough (Let There Be Love Shared Among Us), cyfieithiad Catrin Alun a Siôn Aled). Caneuon Ffydd 871

Duw wyt i'r Tlawd / Harddwch am Friwiau Lu (Graham Kendrick (God Of The Poor/Beauty for Brokenness), cyfieithiad Linda Lockley ). Gwefan gobaith.cymru

Teyrnas (Cass Meurig). Gwefan gobaith.cymru

Wrth weld lluniau'r plant yn dioddef (Casi M Jones) Gwefan gobaith.cymru

Rho i ni lygaid Crist i weld yn iawn (Noel Gibbard). Caneuon Ffydd 851

Mae rhwydwaith dirgel Dduw (Waldo Williams). Caneuon Ffydd 280

Helaetha derfynau dy deyrnas (Morgan Rhys, 1716-79). Caneuon Ffydd 264

Mae Iesu Grist yn aros, yn aros ar y stryd (Jesus Christ is waiting (John Bell & Graham Maule), cyfieithiad Pryderi Llwyd Jones). Caneuon Ffydd 870

Rho i mi nerth i wneud fy rhan ( E. A. Dingley (Give me the strength to do my part), cyfieithiad Nantlais). Caneuon Ffydd 805

Ein gwlad a'n pobl gofiwn nawr (Raymond Williams). Caneuon Ffydd 814

Arglwydd Iesu, llanw d'Eglwys (W. Pari Huws). Caneuon Ffydd 839

Yn gymaint iti gofio (Peter Thomas). Caneuon Ffydd 854

# Hymn and song suggestions

As the seeds are planted (Chris Juby).

**Everything is yours** (Jake Isaac). Created in partnership with Christian Aid.

Forgive us when our deeds ignore (Martin Leckebusch).

**Global neighbours** (Fischy Music). Created in partnership with Christian Aid, particularly suitable for an all-age or children's service.

God is here! As we your people (Fred Pratt Green).

**God of all comfort, God of compassion** (Joel Payne and Matt Weeks). Created for Christian Aid's 75th anniversary.

God of justice (Tim Hughes).

Great is thy faithfulness (Thomas Chisholm).

Heaven shall not wait (Graham Maule and John L. Bell).

In every generation (Ally Barrett).

Let justice roll down (Garth Hewitt).

Show me how to stand for justice (Martin Leckebusch).

**Speak up** (Fischy Music). Created in partnership with Christian Aid, particularly suitable for an all-age or children's service.

The gifts we bring express our love (Brian Hoare).

The kingdom of God is justice and peace (Taizé).

**The song of kingdom come** (Paul Field and Martin John Nicholls). Created in partnership with Christian Aid.

We lift our voices (Andy Clark).

What does the Lord require? (Albert F. Bayly).

**When I needed a neighbour** (Sydney Carter). Written for Christian Aid in 1965, with additional lyrics written for Christian Aid's 80th anniversary by Ally Barrett.

With God all things are possible (Graham Maule and John L. Bell).

You came to raise the last and least (Ally Barrett).



Belinda gyda'i theulu ar ei fferm drefol yn Dagoretti.

Belinda with her family on her urban farm in Dagoretti.

F26037WB

cymorth cristnogol christian aid

Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o Gynghrair ACT. Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 Rhif cwmni 5171525. Mae enw a logo Cymorth Cristnogol yn nodau masnach Cymorth Cristnogol. © Cymorth Cristnogol 2025 Lluniau: David Macharia/Christian Aid J547956

Christian Aid is a key member of ACT Alliance. Eng and Wales charity no. 1105851 Scot charity no. SC039150 Company no. 5171525 Christian Aid Ireland: NI charity no. NIC101631 Company no. NI059154 and ROI charity no. 20014162 Company no. 426928. The Christian Aid name and logo are trademarks of Christian Aid. © Christian Aid December 2025 Photos: David Macharia/Christian Aid J547956